Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Creigiau Primary School

**Llys Tregarth**
**Creigiau**
**CF15 9NN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Creigiau Primary School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Creigiau Primary School |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg a Saesneg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 2 – dwy iaith |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 367 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 279 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 36 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 6.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 2.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 16.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a theuluol sy'n rhan bwysig o'i chymuned. Mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yno gan wybod bod bob amser oedolion y gallant siarad â nhw pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. O ganlyniad, mae bron bob un yn ymddwyn yn rhagorol yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y dirprwy, yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â medrau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hoffi dysgu a dyfalbarhau'n dda wrth eu tasgau. Maent yn ceisio dod o hyd i atebion eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn addysgu disgyblion yn llwyddiannus am y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng pobl. Mae hyn yn golygu bod bron bob un disgybl yn dod i ddeall bod pobl yn y byd sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae'r staff yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu ac am agweddau eraill o fywyd yr ysgol. Maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gefnogi eu cyfoedion iau yn gwbl naturiol fel eu croesawu i'r ysgol yn y bore, neu drefnu gemau buarth pwrpasol iddynt. Mae hyn yn eu hannog i fod yn ofalgar o'i gilydd.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen eu gwella. Maent yn rhoi trefniadau llwyddiannus ar waith i wella'r pethau hynny. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinwyr yn briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi mewn sesiynau, a siarad â disgyblion a staff. Maent hefyd yn derbyn adroddiadau cyson gan y pennaeth, sydd hefyd yn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn yr ysgol. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn synhwyrol, yn annog disgyblion i ddod i'r ysgol yn gyson ac yn gwneud yn siŵr bod pob un yn ddiogel yno.

## Argymhellion

Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Dylai'r ysgol barhau ar ei thaith wella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar, gynhwysol a theuluol sy'n rhan greiddiol o'i chymuned leol. Mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yno gan wybod bod bob amser rhywun yno y gallent rannu unrhyw ofid neu bryder ganddynt. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ac maent yn ymateb yn ddiymdroi i unrhyw honiad o fwlio honedig neu gamymddygiad. Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar ac ysgogol i ddisgyblion. Mae bron bob un disgybl yn ymddiried yn y staff, yn ymddwyn yn rhagorol ac yn falch o fod yn rhan o gymuned gartrefol yr ysgol. Ynghyd â hynny, mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gadarn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd profiadol a hynod effeithiol sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'i hun. Gyda chefnogaeth gadarn y dirprwy ac arweinwyr eraill, mae'n darparu cwricwlwm diddorol, diwylliant cartrefol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol llwyddiannus i'r ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar wella dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, Saesneg fel iaith ychwanegol a'r rheini y mae tlodi yn cael effaith arnynt, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu  medrau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a medrau ehangach.

Arwyddair yr ysgol yw 'Safwn gyda'n gilydd', sy'n adlewyrchu'r elfen deuluol a chefnogol sy'n bodoli ar draws y ddwy ffrwd ieithyddol, lle mae pob un yn parchu a chefnogi ei gilydd yn barhaus. Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn seiliedig ar ddarparu addysg gyfannol a phwrpasol i ddisgyblion. Mae hynny'n meithrin a datblygu dysgwyr annibynnol a hyderus sy'n barod i fentro heb ofni gwneud camgymeriadau.

Mae'r tîm addysgu, sef yr athrawon a'r cynorthwywyr, yn cydweithio'n llwyddiannus iawn i gynllunio a darparu cwricwlwm eang a chyfoethog i ddisgyblion sy'n seiliedig ar ddysgu drwy ymholiad. Mae hyn yn ennyn eu chwilfrydedd a'u hymrwymiad cadarn tuag at eu dysgu. I sbarduno'r dysgu, mae athrawon yn gosod cwestiynau ymholi ar ddechrau bob thema. Maent hefyd yn trefnu ymweliadau i fannau diddorol ac yn cynnal gweithdai ysgogol gan ymwelwyr i gyfoethogi'r profiadau i ddisgyblion. Mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn darparu'n fwriadus ac yn effeithiol ar eu cyfer. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae'r tîm addysgu hefyd yn cefnogi datblygiad creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fedrus. Maent yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau creadigol fel dramâu, côr a gwaith celf. Gwnânt ddefnydd dychmygus o'r ardd, sy'n gyfrwng cyfoethog i ddatblygu ystod eang o fedrau fel chwarae rôl a chyfathrebu ar lafar.

**Ciplun: Defnydd dychmygus o ardd yr ysgol**

Mae staff wedi datblygu'r ardd mewn modd creadigol a llwyddiannus iawn i gyfoethogi'r ddarpariaeth a hybu creadigrwydd y disgyblion. Er enghraifft, mae'r llong môr-ladron a'r castell yn sbarduno dychymyg disgyblion i chwarae rôl ddychmygus yng nghyd-destun eu thema gyfredol. Mae hyn yn meithrin eu chwilfrydedd a'u

creadigrwydd ac yn eu hannog i sgwrsio'n gwbl naturiol wrth ddyfalbarhau â'u tasgau yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn dyfalbarhau'n dda wrth wynebu tasgau newydd neu weithgareddau heriol. Maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus ac yn ceisio dod o hyd i ddatrysiad eu hunain cyn troi at oedolion am gymorth.

Mae'r tîm addysgu yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Trwy drafod egwyddorion fel hawliau, tegwch a pharch, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn dysgu nad yw pob un yn debyg iddyn nhw. Mae'r tîm addysgu wedi datblygu cynlluniau adeiladol ac effeithiol i hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o wahanol grefyddau a diwylliannau. Maent yn trafod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng pobl gyda'r disgyblion ac yn cyflwyno elfennau o wahanol ddiwylliannau a chredoau, gan gychwyn gyda'r diwylliant Cymreig, yn drefnus o fewn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o natur amrywiol cymdeithas.

**Ciplun: Mapio gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a chredoau yn drefnus ac adeiladol ar draws y cwricwlwm**

Mae staff wedi mapio gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a chredoau yn drefnus ac adeiladol ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn treiddio'n naturiol trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion o wahanol gefndiroedd yn hapus bod yr ysgol yn dathlu eu diwylliant a'u harferion hwythau yn eu tro.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cydlynu cymorth hynod effeithiol ar gyfer yr ychydig ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O dan arweiniad y cydlynydd, sydd â dealltwriaeth gadarn o weithdrefnau effeithiol i fynd i'r afael ag ystod o anghenion dysgu a lles, mae'r tîm addysgu yn cynnig darpariaeth gynhwysol ac addas i'r disgyblion sydd ei hangen.

Mae llais y disgybl wedi ei sefydlu'n gadarn ac yn cael dylanwad uniongyrchol ar waith yr ysgol o fewn y dosbarthiadau a thrwy amrywiol gynghorau. Mae aelodau'r cyngor ysgol, er enghraifft, wedi dod o hyd i amrywiol ffyrdd o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd mae'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gefnogi eu cyfoedion iau. Maent yn eu croesawu i'r ysgol yn y bore, eu cynorthwyo yn y neuadd ginio, ac yn trefnu gemau buarth pwrpasol iddynt. Mae hyn yn meithrin medrau personol a chymdeithasol cadarn ym mhob disgybl. Mae staff yn paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn rhoi cyfleoedd iddynt ymateb i'w hadborth ar eu tasgau ac yn darparu cyfleoedd niferus iddynt ymgartrefu'n gyflym wrth symud dosbarth ac yn eu paratoi'n drylwyr i drosglwyddo i'r sector uwchradd, maes o law.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn a llwyddiannus i werthuso cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ystyried deilliannau'r gweithdrefnau hyn i bennu blaenoriaethau synhwyrol i ysgogi gwelliant. Mae gweithdrefnau gwella'r

ysgol yn fanwl ac yn rhoi blaenoriaeth glir i'r materion cywir. Mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o wella'n barhaus sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion dros flynyddoedd lawer. Er enghraifft, mae ei strategaethau i wella safonau llafar disgyblion wedi llwyddo i greu unigolion sydd nid yn unig yn sgwrsio'n hyderus ond hefyd yn ysgrifennu mewn modd diddorol a chreadigol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu'n broffesiynol sy'n gwella ansawdd eu haddysgu a'u galluogi i gyflawni eu rolau yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol yn barhaus, gan gynnwys manteision siarad Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion y ddwy ffrwd tuag at y Gymraeg ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y rheini yn y ffrwd Saesneg.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus ac yn dwyn staff i gyfrif yn synhwyrol, lle bo angen. Drwy arsylwi mewn sesiynau, siarad â disgyblion a staff, a thrwy dderbyn adroddiadau cyson gan y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth. Mae hyn yn eu galluogi i gydweithio'n effeithiol â'r pennaeth i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn synhwyrol a deallus, yn hybu cyfradd presenoldeb uchel yn barhaus ac yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn bodoli yno.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2025